



Gorffennaf 15fed, 2021

PWYSIG

Annwyl Rieni / Gofalwyr,

Gan obeithio eich bod i gyd yn cadw'n iawn. Er bod peth ansicrwydd yn parhau o ran sut fydd y sefyllfa o ran y coronafirws erbyn mis Medi, rydym yn mawr obeithio y bydd y sefyllfa yn gwella ac y bydd modd cychwyn cyflwyno trefniadau mwy arferol i fywyd ysgol. Hoffwn gyflwyno'r wybodaeth ganlynol i chi sydd yn fwy penodol ynglŷn â'r trefniadau. **Mae'n holl bwysig fod y wybodaeth hon yn cael ei rannu gydag unrhyw ofalwyr neu berthnasau eraill sydd gan gyfrifoldeb i ddod neu i gasglu eich plentyn o'r ysgol.**

Bydd peth newidiadau i amserlen y dydd, bydd rhai o'r trefniadau presennol yn parhau, gyda peth newid i rai o'r trefniadau dyddiol eraill.

Y newid pwysicaf i rai ohonoch chi fel rhieni fydd amseroedd cychwyn. Bydd y plant yn dychwelyd i'r ysgol ar ddydd Iau, Medi 2ail. O Fedi ymlaen, bydd y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2 i gyd yn cychwyn ar yr un amser, sef 8.55. Bydd y cyfnod Sylfaen yn cael mynediad drwy'r giât ochr chwith, gyda chyfnod allweddol 2 yn defnyddio'r giât ochr dde, ac yn gwneud ei ffordd yn syth i'w dosbarthiadau. Bydd y meithrin yn dilyn y drefn bresennol. Bydd amseroedd a threfn gorffen yn newid ychydig, gyda'r cyfnod Sylfaen (Derbyn, Blwyddyn 1 a 2) yn gorffen am 3.00, a chyfnod allweddol 2 (Blwyddyn 3-6) yn gorffen am 3.15. Bydd y trefniadau casglu o'r buarth yn parhau gyda'r drefn bresennol, gan ddilyn y llwybr un ffordd i mewn drwy'r giât ochr dde. Gofynnwn i chi sicrhau mai dim ond un rhiant/ofalwr sydd yn dod ar fuarth yr ysgol i gasglu eich plentyn. Bydd hyn yn helpu gyda'r trefniadau i leihau niferoedd ar y buarth yn ystod yr amseroedd prysur hyn. Rydym yn gobeithio bydd yr amseroedd gorffen gwahanol ar ddiwedd dydd yn hwyluso rhywfaint ar drefniadau traffig.

Gofynnwn i chi barchu trefniadau parcio ac iechyd a diogelwch ar y maes parcio wrth yrru i mewn ac allan o'r campws. Byddai yn hwyluso'r trefniadau yn fawr iawn os y gall y rhai ohonoch sydd yn gallu, I gerdded i'r ysgol gyda'r plant gan osgoi dod a cheir i mewn i gampws yr ysgol. Ar gyfer y rhai ohonoch ble mai dod mewn car i'r ysgol fydd yr unig opsiwn, dylid gwneud pob ymdrech i ollwng eich plentyn o fewn cyfnod byr o amser, ac yna unwaith y byddwch yn gweld fod eich plentyn wedi cael mynediad drwy giât yr ysgol ble bydd staff yn goruchwyllo, dylid symud unrhyw gerbyd yn syth o faes parcio a champws yr ysgol. Gofynnwn hefyd i gerddwyr symud oddi ar gampws yr ysgol unwaith y byddwch yn gweld fod eich plentyn wedi cael mynediad i mewn i'r ysgol. Dylai eich plentyn gyrraedd rhwng 8.45 a 8.55. **Ni ddylid cyrraedd yr ysgol dim mwy na 5 munud cyn amser casglu eich plentyn ar ddiwedd dydd, ac eto symud yn brydlon oddi ar gampws yr ysgol, unwaith y bydd eich plentyn wedi ei gasglu. Os y gall pob rhiant/ofalwr ddilyn y trefniadau hyn, yna byddai yn mawr hwyluso'r trefniadau i bawb, Diolch.**

Amseroedd cychwyn a gorffen mis Medi 2021

Meithrin/Nursery - 9.00 - 11.30 (sesiwn bore) 12.30 - 3.00 (sesiwn p'nawn)
Derbyn / Bl. 1 a 2 - 8.55 - 3.00
Blwyddyn 3-6 - 8.55 - 3.15

Yn y dosbarth

Bydd amseroedd cinio ac egwyl ar amseroedd gwahanol i grwpiau gwahanol.

Bydd y plant yn bwyta cinio yn y neuadd.

RHAID sicrhau fod bocs bwyd wedi ei labelu gydag enw'r plentyn. Bydd sbwriel bocs bwyd yn cael ei ddychwelyd adref yn y bocs bwyd.

Ni roddir caniatâd i'r plant ddod ac eitemau, cas pensiliau, offer, teganau o adref. Bydd y plant yn defnyddio offer cyfyngedig yn y dosbarth.

Presenoldeb, Prydlondeb a Gwyliau

Fel yr hysbysir yn rheolaidd yn ystod y flwyddyn, mae presenoldeb a phrydlondeb eich plentyn yn yr ysgol yn allweddol tuag at lwyddiant academaidd eich plentyn. Rydym angen i'ch plentyn fod yn yr ysgol ar amser ar gyfer pob diwrnod posib yn ystod y flwyddyn, oni bai fod rheswm dilys am absenoldeb neu am fod yn hwyr, e.e. salwch, apwyntiad meddygol. Wrth i ni agosáu at y gwyliau, hoffwn eich annog unwaith eto os gwelwch yn dda i feddwl yn ofalus cyn i chi drefnu unrhyw wyliau ar gyfer y flwyddyn 21-22, a gwneud pob ymdrech i osgoi cymryd gwyliau yn ystod y tymor ysgol. Bydd angen gwneud cais trwy lythyr os am gymryd eich plentyn o'r ysgol am wyliau neu ymweliadau eraill sydd ddim yn gysylltiedig ag addysg eich plentyn. Os yw eich plentyn yn absennol, yna bydd angen hysbysu'r ysgol cyn 9.30. Gweler taflen dyddiadau tymhorau ysgol 21-22.

Byrbryd bore

Os yw eich plentyn yn dymuno dod a byrbryd i'r ysgol ar gyfer egwyl y bore, yna bydd angen sicrhau fod hwn o natur iachus. Gan y byddwn yn dilyn cynllun ysgolion iach yr Awdurdod Lleol, ni chaniateir siocled, creision, melysion/fferins, diodydd pop/melys. Yn hytrach bydd angen i fyrbryd fod o natur iachus, er enghraifft ffrwyth, dwr, sudd ffrwythau, iogwrt, byrbryd iachus eraill.

Gwisg ysgol

Rydym ar drothwy gwyliau'r haf. Hoffwn eich atgoffa o drefniant gwisg ysgol o Fedi 2021 ymlaen. Yn unol â'r polisi gwisg ysgol, bydd disgwyl i bob plentyn ddilyn ein polisi gwisg ysgol bresennol, sef trowsus glas/sgert las, crys polo a chrys chwys glas neu gardigan yr ysgol. **Gofynnir i bob plentyn wisgo esgidiau du i'r ysgol. Ni chaniateir trainers du sydd wedi'i labelu gan wneuthurwyr megis Nike, Adidas ayyb, ac ni chaniateir esgidiau sodlau uchel/high heels. Mae felly digon o amser dros yr haf i chi baratoi ar gyfer trefnu gwisg ysgol ac esgidiau ysgol eich plentyn.** Hefyd mae disgwyl i bob plentyn wisgo gwisg addysg gorfforol yr ysgol ar gyfer gweithgareddau corfforol, sef **crys polo/ T glas a siorts glas**. Dylid labelu pob dilledyn gydag enw'r plentyn. Mae gwisg ysgol ar gael drwy gwmni RAM www.ourschoolwear.co.uk



Gofynnwn i bawb gofio labelu dillad y plant os gwelwch yn dda.

Cylch Meithrin (Cylch Maes y Gornel)

Cofiwch fod Cylch Maes y Gornel yn rhedeg o fewn prif adeilad yr ysgol. Mae'r ddarpariaeth yma ar gael i blant oed 2+. Cysylltwch â'r ysgol am wybodaeth bellach. Os ydych yn gwybod am berthnasau neu ffrindiau a fyddai o bosib efo diddordeb mewn cael mynediad i'r gwasanaeth hwn, yna byddem yn ddiolchgar pe byddech yn gallu ei hysbysu o'r wybodaeth.

Arian sydd yn ddyledus

Gofynnwn yn garedig i unrhyw un sydd gan ddyledion i'w talu i'r ysgol e.e. arian cinio (trwy ParentPay) a chlwb ar ôl ysgol, i wneud hyn cyn diwedd y tymor. Ni fydd yn bosib cynnig lle yn y clwb ar ôl ysgol ym mis Medi hyd nes y bydd unrhyw ddyledion wedi'i talu. Os ydych yn ansicr, yna cysylltwch â swyddfa'r ysgol.

Yn olaf, hoffwn dymuno yn dda i'r plant ac i chi fel rhieni a gofalwyr dros wyliau'r haf. Dymunwn yn dda i Miss Catrin Darlington a Miss Zoe Williams sydd yn ffarfwelio a ni wrth iddynt gychwyn ar swyddi dysgu newydd ym mis Medi. A ran yr ysgol, hoffwn ddiolch iddynt am eu cyfraniadau i'r ysgol a dymunwn yn dda iddynt yn ei swyddi newydd. Dymunwn yn dda hefyd wrth gwrs i ddisgyblion blwyddyn 6 sydd yn ein gadael i gychwyn ar fywyd yn yr ysgol Uwchradd. Diolch iddynt am ei gwaith caled yn ystod eu cyfnod yn Ysgol I D Hooson, a phob lwc iddynt ar gyfer y dyfodol. Hwyl fawr blwyddyn 6 a diolch!

Wrth ffarfwelio a rhai aelodau staff a disgyblion, byddwn hefyd yn croesawu Miss Catrin Rowlands, fydd yn addysgu yn y dosbarth Derbyn ym mis Medi a Mr Dylan Jones fydd yn addysgu un o ddosbarthiadau blynyddoedd 5 a 6 o fis Medi ymlaen. Byddwn hefyd yn croesawu Miss Delyth Hughes fydd yn gweithio fel cymhorthydd dosbarth a Mrs Eldrydd Dodd a fydd yn cefnogi'r dysgu a'r addysgu yn y cyfnod Sylfaen ac yng Nghyfnod allweddol 2.

Mae'r trefniadau ar gychwyn y tymor newydd wrth i'r plant ddychwelyd i drefn ysgol ym mis Medi yn debygol o fod yn heriol unwaith eto i bawb, ac felly gofynnwn yn garedig am gydweithrediad pawb gyda'r trefniadau hyn. Cofiwch gadw golwg allan ar wefan yr ysgol, Schoop, safle Trydar yr ysgol, yn ogystal ag Ap yr ysgol ar gyfer gwybodaeth a newyddion arwyddocaol, yn arbennig wrth agosáu tuag at gychwyn y tymor newydd.

Bydd yr ysgol yn cau ar **ddydd Gwener Gorffennaf y 16eg**, ac yn ail agor i'r plant ar **ddydd Iau, Medi 2ail** (Bydd Medi'r 1af yn ddiwrnodiau hyfforddiant i'r athrawon). Edrychwn ymlaen felly at fis Medi ac at gychwyn blwyddyn ysgol newydd !

Diolch yn fawr am eich cefnogaeth ac am eich cydweithrediad parhaus drwy gydol y flwyddyn heriol sydd wedi bod, gan obeithio y cewch chi a'ch teuluoedd haf heddychlon a phleserus.

Yn gywir,

Mr Rhodri Jones

Pennaeth